**Chwaraeon** Met Caerdydd
Cardiff Met **Sport**




# YR CANLLAW I FYFYRWYR

Ddefnyddio’r Polisi Consesiynau Chwaraeon Gyrfa a Pherfformio Deuol.

# Amlinelliad Polisi:

**Cefnogaeth i gydbwyso eich astudiaethau a chwaraeon perfformio - Gostyngiadau i Athletwyr Gyrfa Ddeuol a Chwaraeon Perfformio. Ym Met Caerdydd rydym wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr i berfformio ar y lefel uchaf o chwaraeon wrth gydbwyso eu hastudiaethau. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael a sut i wneud cais.**

## Pa cymorth sydd yna?

| | |
|---|---|
| Haen 1 | **Athletwr Gyrfa Ddeuol** – Cydnabod myfyrwyr yn ffurfiol am gefnogaeth barhaus yn seiliedig ar lefel perfformiad parhaus. |
| Haen 2 | **Consesiwn Chwaraeon Perfformio** – Ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael eu cydnabod fel Athletwyr Gyrfa Ddeuol ac ar gyfer achosion lle mae gwrthdaro rhwng ymrwymiad chwaraeon perfformio ac ymrwymiad academaidd sydd ei angen ar amser penodol (h.y., ymarferol, arholiad, cyflwyniad). |

Ar gyfer y ddwy haen, gellir cynnig consesiynau academaidd i fyfyrwyr megis cyflwyno'n hwyr, peidio â chyflwyno neu fformatau asesu arall.

## Sut a phryd ydw i'n gwneud cais?

| | |
|---|---|
| Haen 1 | **Gwnewch gais o fewn 2 wythnos o ddechrau eich blwyddyn academaidd.** |
| Haen 2 | Gallwch wneud cais ar unrhyw gamo'r flwyddyn a dylech wneud cais cyn gynted ag y byddwch yn gweld bod gwrthdaro rhwng eich ymrwymiadau chwaraeon perfformio ac ymrwymiad academaidd. |

Ffurflen gais ar-lein ar gael here.

# Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

**Haen 1**

Mae'n rhaid i chi fod ag ymrwymiad parhaus ar lefel cystadleuaeth genedlaethol neu ryngwladol a/neu fod yn academi/aelod sgwad datblygu cenedlaethol/ proffesiynol neu led-broffesiynol dan gontract.

**Haen 2**

Rhaid bod gwrthdaro amser uniongyrchol rhwng yr ymrwymiad i chwaraeon perfformio ac asesiad sy'n gofyn am bresenoldeb ar ddyddiad/amser penodol (h.y., ymarferol, arholiad, cyflwyniad). Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes gwrthdaro uniongyrchol, efallai y bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried yn seiliedig ar y cyfnod rhybudd a roddwyd i'ch ymrwymiad perfformiad (h.y., y cyfnod amser rhwng cael eich dewis a dyddiad cau gwaith cwrs).

### A rhaid i un o'r canlynol fod yn berthnasol:

- Cydnabod fel rhan o lwybr perfformiad eu camp neu gyfwerth.
- Rhan o gymhwyster neu broses ddethol ar gyfer dethol cenedlaethol neu ryngwladol ar lefel prifysgol, grŵp oedran neu lefel uwch.
- Cystadleuaeth neu gêm a gydnabyddir fel rhan o'r strwythur cystadleuaeth ryngwladol ar gyfer eu camp ar lefel prifysgol, grŵp oedran neu uwch.

**Mae'r ddwy dudalen nesaf yn darparu siart llif ar gyfer pob haen o gefnogaeth.**

## Haen 1:

**Haen 1**

Myfyriwr yn llenwi ffurflen gais o fewn pythefnos i ddechrau eu blwyddyn academaidd

Rheolwr Ffordd o Fyw ac Addysg Athletwyr yn adolygu'r cais

**Cais wedi wrthod:** Bydd myfyriwr yn cael ei hysbysu trwy e-bost. Gall myfyriwr wneud cais am gymorth Haen 2 os yw'n teimlo bod ei angen ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

**Cais llwyddiannus:** Rheolwr Ffordd o Fyw ac Addysg Athletwyr yn hysbysu'r myfyriwr trwy e-bost ac yn hysbysu'r ysgol academaidd berthnasol.

Tiwtor personol yn cysylltu â'r myfyriwr i drefnu cyfarfod.

Tiwtor Personol a myfyriwr yn trafod yr angen am unrhyw gonsesiynau academaidd ar unwaith ac yn trefnu cyfathrebu a chymorth parhaus

Mae'r tiwtor personol a'r myfyriwr yn parhau i gyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Tiwtor Personol yn gofyn am unrhyw gonsesiynau academaidd sydd eu hangen.

## Haen 2:

**Haen 2**

Myfyriwr yn derbyn hysbysiad o ymrwymiad perfformiad sy'n mynd i achosi gwrthdaro.

↓

Myfyriwr yn llenwi ffurflen gais.

↓

Rheolwr Ffordd o Fyw ac Addysg Athletwyr yn adolygu'r cais

↓

**Cais wedi wrthod:**
Bydd myfyriwr yn cael ei hysbysu trwy e-bost. Rhaid i'r myfyriwr gyflawni unrhyw ymrwymiadau academaidd. Gall myfyriwr wneud cais eto am ymrwymiad perfformiad gwahanol os bydd yn codi.

**Cais llwyddiannus:**
Rheolwr Ffordd o Fyw ac Addysg Athletwyr yn hysbysu'r ysgol academaidd berthnasol.

↓

Mae staff gweinyddol ysgolion academaidd yn prosesu'r cais ac yn cyhoeddi consesiwn academaidd. Hysbysir myfyrwyr, staff academaidd a'r gofrestrfa trwy e-bost.

↓

Myfyriwr yn parhau i astudio a gall wneud cais eto am ymrwymiad perfformiad gwahanol os bydd yn codi.*

*Os yw'r ymrwymiad chwaraeon perfformio nawr yn golygu bod y myfyriwr yn gymwys i gael Statws Athletwr Gyrfa Ddeuol, Rheolwr Ffordd o Fyw ac Addysg Athletwyr yn hysbysu'r myfyriwr a'r tiwtor personol.

CMetSport

CardiffMetSport

cardiffmetsport

cardiffmetsport

For more information contact the team at **dcapolicy@cardiffmet.ac.uk**

Chwaraeon Met Caerdydd
Cardiff Met Sport